

Cywiriadau i drwydded weithredu'r BBC a gyhoeddwyd ar 13 Hydref 2017

Ar 13 Hydref 2017 cyhoeddodd Ofcom y drwydded weithredu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae Ofcom wedi sylwi bod croesgyfeiriad anghywir yn amod rheoleiddio 2.59 a bod gwall drafftio yn amod rheoleiddio 2.66. Mae'r rhain wedi cael eu cywiro yn y drwydded weithredu a'r dogfennau cysylltiedig a gyhoeddwyd ar wefan Ofcom.

Amod rheoleiddio 2.59

Dylai'r croesgyfeiriad at amod rheoleiddio "2.58.12" fod at "2.58.2".

Amod rheoleiddio 2.66

Mae'r amod hwn yn nodi gofyniad ar y BBC i dalu am gyfran o "wariant perthnasol" Radio 3 y tu allan i ardal yr M25. Mae gwall drafftio yn y diffiniad o "wariant perthnasol".

Roedd y diffiniad yn y drwydded a gyhoeddwyd fel a ganlyn: "At ddibenion y gofyniad hwn, mae "gwariant perthnasol" yn golygu gwariant ar gynhyrchu rhaglenni (heb gynnwys gwariant ar gostau wedi'u hariannu'n ganolog a heb gynnwys dyraniad Radio 3 o'r cymhorthdal i'r cerddorfeydd canolog).".

Dylai'r diffiniad hwn fod fel a ganlyn: "At ddibenion y gofyniad hwn, mae "gwariant perthnasol" yn golygu gwariant ar gynhyrchu rhaglenni (heb gynnwys gwariant ar gostau wedi'u hariannu'n ganolog) a dyraniad Radio 3 o'r cymhorthdal i'r cerddorfeydd canolog.".

Ofcom 19 Rhagfyr 2017